Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Prawf taeniad gwddf y groth y mae'n rhaid ei wneud eto
The cervical smear that needs to be repeated

Cymraeg Clir

NHS WALES GIG CYMRU

Pam mae'n rhaid i mi gael prawf taeniad arall

Mae'r prawf taeniad ar eich serfics (cervix) wedi dangos rhai annormaleddau. Mae mân annormaleddau fel hyn i'w gweld mewn tua 1 prawf taeniad ym mhob 20. Dydyn nhw ddim yn golygu fod canser arnoch chi.

Yn aml, fe fydd y mân annormaleddau'n troi'n normal eto ohonyn nhw'u hunain. Mae'n ddigon diogel aros a chael prawf arall ymhen 6 mis. Dydi'r annormaleddau ddim yn achosi unrhyw symptomau. Felly os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw waedu anarferol neu redlif (discharge), gwnewch apwyntiad i drafod hyn â'ch meddyg teulu.

Beth sydd wedi achosi'r annormaleddau

Mae sawl achos posib. Fe allai fod rhywfaint o lid (inflammation) ar y serfics. Weithiau, mae newidiadau yn yr hormonau'n gallu ymddangos fel annormaledd ysgafn.

Mae'n bosib mai camau cynnar newidiadau yn y celloedd sy'n bresennol. Dyscariosis (dyskaryosis) yw'r enw ar y newidiadau yma, ac maen nhw'n golygu bod niwclews (nucleus) y gell yn edrych yn annormal. Dydi hi ddim yn hollol glir beth sy'n gwneud i'r dyscariosis yma ddatblygu. Yn aml, firws sydd wedi heintio'r serfics. Papiloma dynol (neu HPV - Human Papilloma Virus) yw'r enw ar y firws yma, ac mae'n cael ei drosglwyddo yn ystod cyfathrach rywiol.

Fe fydd rhai merched yn poeni y gallai cyfathrach rywiol wneud y broblem yn waeth, neu ei drosglwyddo i'w partneriaid. Dydi cyfathrach rywiol ddim yn gwneud y broblem yn waeth, a dydi hi ddim yn bosib trosglwyddo'r celloedd annormal.

Beth sy'n digwydd os bydd fy mhrawf taeniad i'n troi'n normal eto

Fel sy'n digwydd yn aml, fe allai'ch prawf taeniad chi droi'n normal eto ohono'i hun. Os bydd hynny'n digwydd, yna fe ddylech chi gael dau brawf arall yn ystod y 18 mis nesaf. Fe gewch chi'ch galw yn y ffordd arferol i gael y profion yma. Wedi hynny, fe gewch chi'ch galw i gael prawf taeniad rheolaidd bob tair blynedd.

Beth os na fydd fy mhrawf taeniad i'n troi'n normal eto ohono'i hun

Os na fydd eich prawf taeniad yn troi'n normal eto ohono'i hun fe fydd angen archwiliad arall arnoch chi i weld a oes angen triniaeth. Fe allai hyn fod ar ôl dau neu dri phrawf taeniad annormal, ac mae'n dibynnu ar yr annormaleddau a gafodd eu gweld. Fel rheol, mae'r driniaeth yn llwyddiannus mewn bron i 100% o achosion.

Beth fyddai archwiliad arall yn ei olygu

Colposcopi yw'r enw ar yr archwiliad. Wrth wneud colposcopi, mae'n bosib archwilio'r serfics fwy manwl i weld a oes yna fannau annormal sydd angen eu trin.

Os bydd rhaid i chi gael colposcopi, fe gewch chi daflen sy'n esbonio'r broses. Does dim rhaid i bob unigolyn sy'n cael colposcopi gael triniaeth.

Beth ddylwn i ei wneud os bydda i'n sylwi ar symptomau

Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw un o'r rhain:

- gwaedu afreolaidd
- gwaedu anarferol
- rhedlif (discharge) anarferol o'r wain

yna trefnwch apwyntiad i drafod hyn â'ch meddyg teulu hyd yn oed os cawsoch chi brawf taeniad yn ddiweddar.

Rhagor o gwestiynau

Os hoffech chi ofyn unrhyw gwestiynau eraill ynghylch sgrinio, cysylltwch â'ch meddyg teulu, nyrs y feddygfa, staff y clinig cymunedol, neu ysgrifennwch at:

Y Cyfarwyddwr
Sgrinio Serfigol Cymru
18 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LH

Rydyn ni'n cynhyrchu'r taflenni yma ar bob agwedd ar sgrinio gwddf y groth.

Sgrinio serfigol - y ffeithiau
Prawf taeniad serfigol y mae'n rhaid ei wneud eto
Archwilio prawf taeniad annormal ar y serfics
Archwilio prawf taeniad annigonol ar y serfics
Eich apwyntiad i gael colposcopi
Triniaeth ar ôl prawf taeniad annormal ar y serfics
A ddylai merched gwyryf gael prawf taeniad serfigol?
Ar ôl eich hysterectomi
Oes cwyn gennych chi am Sgrinio Serfigol Cymru?

Sut rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth amdanoch chi
Ein haddewidion i chi.

Fe gewch chi'r taflenni yma o

- adran weinyddol eich rhaglen Sgrinio Serfigol leol;
- eich meddyg teulu, neu
- ein gwefan ni **www.velindre-tr.wales.nhs.uk/csw.**

Fe allwch chi gael ein taflenni ni i gyd:

- mewn print mawr
- ar dâp sain
- mewn Braille.

(Ver 2) 09/04